**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 21 CHWEFROR 2024 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd) trwy MS Teams; Mr Michael Imperato trwy MS Teams; Mrs Dianne Bevan trwy MS Teams; Mr Frank Cuthbert trwy MS Teams; Ms Ginger Wiegand trwy MS Teams.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon); Mr Paul Elliott (Swyddog Arolygon); Mr Christian Lovatt (Swyddog Cymorth Tîm).

**Amser Dechrau: 10:22**
**Amser Gorffen: 11:21**

**1. Datganiadau Buddiannau**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am y Cynllun Prentisiaid Bwrdd y disgwylir iddo ddechrau ym mis Mawrth am gyfnod o dri mis. Bydd Cyrff Cyhoeddus Cymru yn ariannu'r cynllun.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd yn amodol ar fân ddiwygiadau.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1)** Cafodd y Comisiwn 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 25 Ionawr 2024 a 14 Chwefror 2024.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar hyn o bryd ar gyfer Bro Morgannwg, Caerffili, Ceredigion, Abertawe, a Sir Benfro. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys mewn eitem agenda ar wahân.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cadarnhau gyda Llywodraeth Cymru ei fod yn fodlon bwrw ymlaen â symud llety i CP2 a'i fod wedi gofyn i'r gwaith papur angenrheidiol gael ei gwblhau'n derfynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu grant cyfalaf £10k i gefnogi'r broses symud.

**4.5.** **(Mater 4) Nodwyd** bod ORS wedi cadarnhau bod cyfweliadau wedi'u cwblhau a bydd adroddiad drafft yn cael ei rannu gyda'r Comisiwn ar ddiwedd mis Chwefror.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** **Rhoddodd** y Prif Weithredwr **wybodaeth** i'r Comisiwn am y Rhaglen Bontio.

**5.2.** Trafodwyd y diwygiadau arfaethedig, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â nifer y Comisiynwyr a'r broses benodi.

**5.3.** **Nodwyd** na fu diwygiadau i'r Bil Cyrff Etholiadol ar yr adeg hon.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 14 Chwefror 2024 gan y Prif Weithredwr.

**6.2.** **Nodwyd** bod cynigion i ymestyn contractau Comisiynwyr tan yn hwyrach yn 2026.

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb 2023-24

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 21 Chwefror 2024 gan y Rheolwr Cyllid, a ddangosodd sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Ionawr 2024.

**7.2.** **Nodwyd** y prif feysydd tanwariant a gorwariant, a'r esboniadau drostynt.

**7.3.** **Nodwyd** bod rhai cronfeydd wedi cael eu trosglwyddo ar draws sawl cyllideb i fynd i'r afael â rhywfaint o orwariant amcangyfrifedig. **Nodwyd** bod y rhan fwyaf o'r gorwariant yn deillio o arolygon cymunedol ac y byddai'n cael ei adennill o'r awdurdodau lleol perthnasol cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**7.4.** **Nodwyd** y gallai'r cyfanswm tanwariant amcangyfrifedig o £25k ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2023-24 fod yn fwy yn dilyn y costau a adenillir o'r awdurdodau lleol.

## 8. Rheoli Risg – Cofrestr Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Rheoli Risg dyddiedig 21 Chwefror 2024 gan y Rheolwr Cyllid.

**8.2.** O ystyried y datblygiadau diweddar yn gysylltiedig â symud llety, credwyd y dylai risg CR3 ynglŷn â pharodrwydd y Comisiwn ar gyfer symud llety gael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC).
**Gweithredu:** Trafod CR3 yng nghyfarfod nesaf yr ARAC.

**8.3.** Nododd y Comisiwn y Gofrestr Risg bresennol a **chytunodd** nad oedd angen rhagor o newidiadau ar yr adeg hon.

## 9. Cofrestr Risg y Flaenraglen Waith

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CFfDLC dyddiedig 21 Chwefror 2024.

**9.2.** Nododd y Comisiwn y Gofrestr Risg bresennol a **chytunodd** nad oedd angen rhagor o newidiadau ar yr adeg hon.

## 10. Cylch Gwaith Cyfarfodydd CFfDLC

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gylch Gwaith Cyfarfodydd y Comisiwn a Chynllun Gwaith Blynyddol CFfDLC dyddiedig 21 Chwefror 2024.

**10.2.** **Nododd** y Comisiwn fod y newidiadau sy'n deillio o'r gwaith ychwanegol yn y dyfodol a'r cylch gwaith wedi'i ymestyn yn golygu y byddai angen i'r Cylch Gwaith a'r Cynllun Gwaith gael eu hadolygu'n fanwl. Ni chynigiodd y Comisiwn unrhyw newidiadau i'r Cylch Gwaith a'r Cynllun Gwaith presennol.
**Gweithredu:** Eitem agenda yn y dyfodol ar gyfer cyfarfod diwedd mis Gorffennaf.

## 11. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 14 Chwefror 2024 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**11.2.** **Nodwyd** bod 5 arolwg cymunedol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, sydd i gyd ar gamau gwahanol.

**11.3.** **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad yn ogystal ag unrhyw newidiadau i'r amserlen ac unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer y cofnod gwersi a ddysgwyd.

**11.4.** **Nodwyd** bod Sir Gaerfyrddin wedi cwblhau eu harolwg cymunedol etholiadol mewnol. Mae'r Comisiwn wedi derbyn copïau o'r Gorchmynion a wnaed gan y Cyngor ac yn aros am gadarnhad ynghylch ymholiad blaenorol i gynnal arolwg cyfyngedig o ardaloedd cymunedol.

**11.5.** Mae Gwynedd a Phowys yn ystyried system bleidleisio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer eu hetholiadau.

## 12. Arolwg Cymunedol Abertawe

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Arolwg Cymunedol Abertawe – Fersiwn Ddrafft o'r Adroddiad Cynigion Drafft dyddiedig 14 Chwefror 2024.

**12.2.** **Nodwyd** y gellid addasu iaith y papur ar gyfer y cyhoedd.

**Gweithredu:** Gwneud newidiadau posibl i'r prif destun.

## 13. Arolwg Cymunedol Caerffili

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Arolwg Cymunedol Caerffili – Fersiwn Ddrafft o'r Adroddiad Argymhellion Terfynol dyddiedig 14 Chwefror 2024.

**13.2.** **Nododd** y Comisiwn gynnydd presennol Arolwg Caerffili.

## 14. Arolwg Cymunedol Sir Benfro

**14.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Arolwg Cymunedol Sir Benfro – Fersiwn Ddrafft o'r Adroddiad Cynigion Drafft dyddiedig 14 Chwefror 2024.

**14.2.** **Nododd** y Comisiwn gynnydd presennol Arolwg Sir Benfro.

## 15. Calendr Digwyddiadau

**15.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau.

## 16. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**16.1.** Ni nodwyd unrhyw fater arall perthnasol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 24 Ebrill 2024